



Diweddariad ar ddiwygiadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith

Heddiw (27 Mehefin 2025), mae PecynUK wedi cyhoeddi ffioedd sylfaenol deunyddiau 2025 sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros becynwaith (pEPR), ochr yn ochr â'r datganiad ar fodiwleiddio ffioedd a Strategaeth interim PecynUK. Mae'r rhain yn gamau mawr ymlaen a hoffem ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am eich help wrth ddatblygu'r deunyddiau hyn.

Heblaw'r dogfennau pwysig hyn, hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ddatblygiadau polisi allweddol wrth ddylunio a chyflwyno pEPR sy'n rhedeg yn gyfochrog a'ch gwahodd i gydweithredu'n agos wrth ddatblygu'r rhain. Mae'r gweinidogion ledled y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i wrando ar eich adborth a gwella pEPR yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys cynyddu arweinyddiaeth cynhyrchwyr i'r eithaf a chefnogi perfformiad yr awdurdodau lleol.

Pecynwaith Defnydd Deuol – Diffinio Cartref

Yn dilyn bwrdd crwn y Gweinidog Creagh i'r diwydiant ar 10 Mehefin a gweithdy dilynol ar 23 Mehefin ar faterion sy'n ymwneud â phecynwaith defnydd deuol, rydym yn dal i weithio'n agos gyda'r diwydiant i fynd i'r afael â phryderon ynghylch rhai deunyddiau pecynwaith deuol sy'n dod o dan rwymedigaethau pEPR.

Mae pEPR yn trosglwyddo cost rheoli gwastraff pecynwaith cartrefi o'r awdurdodau lleol i'r cynhyrchwyr sy'n cyflenwi'r pecynwaith hwnnw. Serch hynny, mae rhai mathau o becynwaith y gall defnyddwyr a busnesau eu taflu ('pecynwaith defnydd deuol') yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd o fewn y diffiniad o becynwaith cartrefi. Gall y pecynwaith hwn fod yn anodd ei olrhain neu'n anodd dangos tystiolaeth ohono lle bo'n cael ei daflu ar ôl cael ei gyflenwi gan gynhyrchydd yn gyntaf.

Mae cynrychiolwyr y diwydiant wedi cynnig sawl ateb i fynd i'r afael â'r her y mae'r diffiniad presennol o wastraff cartrefi yn ei chreu. Mae cyfres o weithdai pellach yn benodol i'r sector wedi'u cynllunio dros yr wythnosau nesaf, a byddwn yn gweithio fel pedair gwlad i werthuso'r

cynigion hyn ar fyrder ac yn ofalus gyda'r bwriad o nodi opsiynau sy'n mynd i'r afael â'r materion, ond sy'n cynnal amcanion y cynllun yr un pryd.

Ailddefnyddio Pecynwaith

Mae i ailddefnyddio botensial enfawr i gyflawni newid economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol. Mae ymchwil bwysig a gyhoeddwyd gan GoUnPackaged yr wythnos hon yn dangos y byddai symud i ailddefnyddio 30% mewn manwerthu bwyd yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn CO2 a gwastraff deunyddiau, ochr yn ochr ag arbedion o £136m y flwyddyn mewn ffioedd pEPR, a £314-£577m yn gyffredinol. Mae'n cynnig ffordd ymlaen sy'n fasnachol hyfyw ac yn amgylcheddol gynaliadwy.

Mae ymdrechion i hybu ailddefnyddio yn ennill momentwm sylweddol ac fel pedair gwlad rydym wedi ymrwymo i ailddefnyddio fel rhan greiddiol o'r trawsnewidiad i economi cylchol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y bydd pEPR yn helpu i yrru'r trawsnewidiad i becynwaith a all gael ei ailddefnyddio - gyda ffioedd pEPR yn cael eu talu unwaith yn unig am eitemau y gellir eu haildefnyddio ni waeth faint o weithiau y maen nhw'n cael eu haildefnyddio - ochr yn ochr â chmau eraill sy'n cael eu cymryd gan bob llywodraeth.

Sefydliad Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr

Rydym yn bwrw ymlaen â'r dasg o benodi'r Sefydliad Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (PRO). Bydd yn chwarae rôl arweiniol bwysig wrth i pEPR gael ei gyflwyno, yn unol â'r arferion gorau rhyngwladol. Ar ôl trefnu ffenestr lwyddiannus ar gyfer Mynegi Diddordeb a gaeodd ar 10 Mehefin, bydd gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu cyflawni gyda'r darpar ymgeiswyr dros yr haf i drafod rhychwant y swyddogaethau a ddirprwyir i'r PRO. Bydd y broses ymgeisio ffurfiol yn cael ei lansio ym mis Hydref 2025, a'r bwriad yw y bydd PecynUK yn penodi'r PRO erbyn mis Mawrth 2026, pan fydd y rheoliadau diwygio wedi dod i rym.

Asesiadau Ailgylchadwyedd

Mewn ymateb i adborth gan y diwydiant ynghylch yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni eu rhwymedigaethau ynglŷn ag asesu ailgylchadwyedd ar gyfer 2025, mae rheoleiddwyr amgylcheddol y pedair gwlad wedi cymeradwyo Datganiadau Sefyllfa Reoleiddiol (yng Nghymru, Penderfyniad Rheoleiddio) sy'n rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r cynhyrchwyr yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Y nod yn hyn o beth yw lleddfu'r baich i'r cynhyrchwyr atebol gan gynnal yr ymrwymiad i gyflwyno ffioedd pEPR wedi'u modiweiddio o flwyddyn asesu 2026-2027 ymlaen.

Er bod rhaid i'r cynhyrchwyr barhau i roi gwybod am y tunelleddau ar gyfer hanner cyntaf 2025 gan gynnwys plastigion hyblyg ac anhyblyg ar wahân, mae modd i'w rhwymedigaethau ynglŷn ag asesu ailgylchadwydd ar gyfer y cyfnod hwn gael eu codi ar sail data'r ail hanner.

Lefelu'r cae chwarae ar gyfer ailbroseswyr domestig

Rydym wedi clywed pryderon gan sectorau plastig a gwydr y Deyrnas Unedig am ganlyniadau anfwriadol y systemau PRNs/PERNs a'r systemau allforio gwastraff presennol, gan gyfaddawdu'n capasiti domestig. Rydym yn gweithio'n gyflym i ddatrys y materion hyn. Yn benodol, rydym yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr i gyflwyno cynlluniau i wella'r gydymffurfiaeth yn sylweddol ar allforio deunyddiau o dan brosesau gwastraff y 'Rhestr Werdd'. Ar ben hynny, rydym eisoes wedi deddfu ar gyfer gwelliannau i'r broses achredu allforwyr i gryfhau'r gofynion ynglŷn â thystiolaeth ar gyfer rhoi PERNs. Daw'r diwygiadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2026. Byddwn yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr i gyflwyno cynlluniau cydymffurfio trwyadl ar gyfer y mesurau newydd hyn. Heblaw hyn, rydym yn gweithio ar draws y pedair gwlad i ddatblygu diwygiadau pellach i lefelu'r cae chwarae rhwng PRNs domestig a PERNs allforio, fel rhan o ymgynghoriad y byddwn yn ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd yr Awdurdodau Lleol

Rydyn ni wedi clywed pryderon gan gynhyrchwyr ac awdurdodau lleol bod angen sicrhau bod buddsoddiadau yn sgil pEPR yn sbarduno gwelliannau yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith. Rydyn ni, a'r awdurdodau lleol hefyd, yn rhannu'r awydd hwn i sicrhau bod pEPR yn rhoi gwell canlyniadau a gwerth am arian i'r cynhyrchwyr ac i'r dinasyddion. Gan hynny, rydyn ni fel pedair gwlad yn gweithio gyda PecynUK i gryfhau a gwella'r dull gweithredu, gan gynnwys y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr Offeryn Statudol diwygio.

O ran defnyddio taliadau EPR, rydym wedi bod yn glir ar draws y pedair gwlad fod y taliadau EPR yn cael eu cyflwyno er mwyn i'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff pecynwaith yn effeithlon ac yn effeithiol gan yr awdurdodau lleol gael eu talu, gan gydnabod y dibenion cyfreithiol penodol y mae'r taliadau hyn yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer. Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gan y cynhyrchwyr hyder y bydd y buddsoddiad a wneir trwy pEPR yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Pan fydd dyraniadau taliadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cadarnhau ym mis Gorffennaf, bydd PecynUK yn ysgrifennu'n uniongyrchol at brif weithredwyr yr awdurdodau lleol i sefydlu mesurau atebolrwydd clir.

Hefyd, yn Lloegr, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyfarwyddo PecynUK i arfer ei bwerau presennol o fewn y rheoliadau pEPR i sicrhau mai dim ond arian pEPR sy'n cael ei wario ar reoli ac ailgylchu gwastraff pecynwaith cartrefi y bydd awdurdodau lleol Lloegr yn ei gael. Pan fydd dyraniadau taliadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cadarnhau ym mis Gorffennaf, bydd PecynUK yn ysgrifennu'n uniongyrchol at brif weithredwyr holl awdurdodau lleol Lloegr yn nodi hyn.

Er y bernir bod hyn yn annhebygol, os na fydd awdurdod lleol yn Lloegr yn gwario'r arian fel y nodwyd, bydd PecynUK wedyn yn defnyddio'i bwerau rheoleiddio presennol i ddiynnu arian yn unol â hynny o daliad y flwyddyn ganlynol. Rydym yn hyderus bod y mwyafrif llethol o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i'r diwygiadau hyn ac yn gweld pEPR fel cyfle i wella'r gwasanaethau a gynigir i ddinasyddion a chefnogi economi cylchol ar gyfer pecynwaith. Er hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig rhoi hyder i'r cynhyrchwyr bod y buddsoddiad a wnaed ar gyfer pEPR yn cyflawni'r gwerth a fwriadwyd ac mae'r camau hyn wedi'u bwriadu i roi'r sicrwydd pwysig hwn.

Rydym yn croesawu'ch ymgysylltiad a'ch cefnogaeth barhaus wrth inni roi'r diwygiadau pwysig hyn ar waith i greu economi mwy cynaliadwy a chylchol.

